Adran Adnoddau Naturiol
Department for Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Martina Dunne
Pennaeth Cyfeiriad y Parc
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

23 Mai 2018

Annwyl Martina,

**Ymgynghoriad Adneuo (Rheoliad 17) Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: Sylwadau Llywodraeth Cymru**

Diolch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar ddogfennau Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro. Rydym yn sylweddoli bod paratoi CDLl a'r dystiolaeth ategol yn dipyn o dasg ac yn cydnabod yr holl waith a wnaed gan eich Awdurdod hyd yma o ran symud y Cynllun yn ei flaen o'r Strategaeth a Ffefrir i'r cam Adneuo.

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi y strategaeth ofodol ar y cyfan** sy'n ceisio lleoli datblygiadau yn unol â hierarchiaeth, gan gyfeirio twf tuag at y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, tra hefyd yn cefnogi ardaloedd gwledig.

Bydd yn hanfodol i ddangos bod y strategaeth wedi ei chyflawni. Mae datblygu'r system gynllunio yng Nghymru wedi'i arwain gan dystiolaeth, ac mae dangos bod llunio cynllun yn ôl y dystiolaeth yn ofyniad allweddol i archwiliad y Cynllun Datblygu Lleol. **Mae'n rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod sylfaen dystiolaeth gadarn i ddangos bod strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol wedi ei gyflawni ac elfennau y cyflenwad tir ar gyfer tai,** sydd â nifer o anghysondebau ar hyn o bryd. Mae'n hollbwysig dangos bod yr holl safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflenwi a'u bod yn hyfyw, yn enwedig y safleoedd hynny sy'n hollbwysig i gyflenwi'r strategaeth a'r amcanion.

Heb ragfarnu'r archwiliad annibynnol na chwaith bwerau'r Gweinidog i ymyrryd yn ddiweddarach yn y broses, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol ar hyd proses y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i Adneuo wedi'i ystyried yn unol â phrofion cadernid ym Mholisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol. **Caiff ein sylwadau eu rhannu yn dri categori sy'n cael eu gosod yn fanwl yn ôl y maes pwnc yn yr atodiad.**



Parc Cathays ● CathaysPark
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 029 2082 3732
mark.newey@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

**Categori A:** Materion sylfaenol sy'n cael eu hystyried fel materion sy'n golygu risg sylweddol i'r Awdurdod os nad ydynt yn cael eu trafod cyn y cam cyflwyno, ac a allai olygu goblygiadau i strategaeth y cynllun:

- **Dim**

**Categori B:** Materion ble y mae'n ymddangos nad yw'r cynllun adneuo wedi trosi y polisi cenedlaethol yn foddhaol i'r lefel leol a gellid gweld tensiwn o fewn y cynllun, er enghraifft:

- **Cyflawni: Dangos Cyflenwad a Hyblygrwydd 5 Mlynedd**
- **Hyfywedd Tai Fforddiadwy**

**Categori C:** Er nad yw'n cael ei ystyried yn sylfaenol i gadernid y Cynllun Datblygu Lleol, rydym yn credu bod diffyg cadernid neu eglurder yn y materion canlynol:

- **Cyflenwi a Gweithredu'r Safle**
- **Dosbarthu Tai yn Ofodol**
- **Targed ar gyfer tai fforddiadwy**
- **Sipsiwn a Theithwyr**
- **Ynni Adnewyddadwy**
- **Ardaloedd Sensitif i'r Gymraeg**
- **Safleoedd Cyflogaeth wedi'u Diogelu**
- **Mwynau**
- **Lletemau glas**

Eich Awdurdod sydd i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn 'gadarn' a'r Archwilydd fydd i benderfynu ar yr archwiliad unwaith y caiff ei gyflwyno. Dylech ystyried sut y gallech sicrhau ei bod mor debygol â phosibl y bydd eich Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ystyried yn 'gadarn' drwy'r broses archwilio. Mae aelodau o'm tîm yn edrych ymlaen at gyfarfod â chi a'ch tîm i drafod y materion sy'n codi o'r ymateb hwn ym mis Awst. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn y cyfamser, mae croeso ichi gysylltu â mi.
Yn gywir,



**Mark Newey**
**Rheolwr y Gangen Cynlluniau**
**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**

**Atodiad i Lythyr Llywodraeth Cymru (23 Mai 2018) mewn ymateb i Gynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015-2031**

| | |
|---|---|
| **Categori A** | Gwrthwynebiadau o dan y profion cadernid; materion sylfaenol yr ystyrir eu bod yn golygu risg sylweddol os na fyddant yn cael eu datrys cyn eu cyflwyno. |
| **Categori B** | Gwrthwynebiadau o dan y profion cadernid; materion ble yr ymddengys nad yw'r Cynllun Adneuo wedi trosi y polisi cenedlaethol yn foddhaol ar lefel leol neu bod tensiwn o fewn y cynllun. |
| **Categori C** | Gwrthwynebiadau i'r profion cadernid; er nad ydynt yn cael eu hystyried yn sylfaenol i gadernid y Cynllun Datblygu Lleol, mae diffyg sicrwydd neu eglurder o ran y materion y gellid mynd i'r afael â hwy yn llwyddiannus. |

**Categori B -**

Mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys gwybodaeth gyson a chadarn i ddangos eu bod yn darparu'r gofynion ar gyfer tai. Mae nifer o gamgymeriadau ac anghysondebau yn y cyflenwad o dir ar gyfer tai (dyraniadau, safleoedd ar hap ac ymrwymiadau) wedi'u nodi gan godi pryderon ynghylch y gallu i gynnal cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai a lefel yr hyblygrwydd yn y cynllun. Dylai lefel yr hyblygrwydd fod yn ddigonol i ddelio gydag amgylchiadau na ellir eu rhagweld, megis amseru a bod modd darparu safleoedd yn y cynllun. Mae angen cyfiawnhau ac egluro'r canlynol ymhellach:

**Darpariaeth/Hyblygrwydd ar gyfer Tai -** Mae Polisi 48 'Dyrannu Tai' yn nodi 16 o safleoedd wedi'u dyrannu i ddarparu 525 o unedau. Mae'r Papur Cefndir Tai (Atodiad 2) yn nodi y bydd 374 o unedau'n cael eu darparu, gan arwain at wahaniaeth yn y nifer o 151 o unedau. Mae angen egluro'r goblygiadau hefyd ar gyfer lefel yr hyblygrwydd yn y cynllun. Mae'n ymddangos bod yr Awdurdod wedi cyfri unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun yn y ddarpariaeth dai sy'n anaddas.

**Safleoedd ar hap -** Mae angen i'r Awdurdod gyfiawnhau y gyfradd 'safleoedd ar hap mawr' o 21 y flwyddyn, gan gynnwys pam bod gostyngiad o 40% yn Ninbych y Pysgod. Nid yw'r dystiolaeth yn glir o ran hyn ac mae angen ei egluro. Mae hefyd yn aneglur pam bod rhai safleoedd sydd wedi eu 'dad-neilltuo' y tu allan i'r ffiniau wedi'u cynnwys o fewn y cyfraddau safleoedd ar hap. Ni ddylid cynnwys safleoedd y tu allan i ffiniau setliad fel safleoedd ar hap a dylid eu dileu.

**Cyflenwad Tir 5 mlynedd sydd ar gael ar gyfer Tai -** Mae rhai camgymeriadau sydd angen eu cywiro:

- Mae y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai (Atodiad 3) yn anghywir yn fathemategol gan ei fod yn rhoi cyfanswm y ddarpariaeth dai, yn hytrach na'r hyn sydd ei angen. Mae'r lwfans hyblygrwydd yn caniatáu ar gyfer safleoedd heb eu cyflenwi, ni fydd adeiladu ar gyfer y lwfans cyfan. Mae angen ail-gyfrifo y ffigurau ar gyfer cyflenwad tir y cynllun i sicrhau bod cyflenwad 5 mlynedd wrth fabwysiadu a thrwy gyfnod y cynllun.
- Mae'r graff ar gyfer cefnogi y llwybr dangosol ar gyfer tai yn anghywir yn fathemategol; nid yw'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth dai o 1,150; mae'r graff yn rhoi cyfanswm o 1,056.

- Safleoedd banciau tir - mae hefyd yn aneglur ble y caiff y safleoedd gyda hawl cynllunio eu cynnwys wrth gyflwyno Atodiad 3 a'r graff. Dylai'r Awdurdod gadarnhau nad oes cyfri dwbl gyda'r cyfraddau ar hap ar y sail yma.

**Tabl 7: Meysydd o dwf yn y dyfodol -** Dylai HA5 a HA11 gael ei ddyrannu yn gyfan a'i gynnwys o fewn ffin y setliad i sicrhau bod datblygiad cynhwysol. Dim ond unedau yr ystyrir sydd wedi'u hadeiladu o fewn cyfnod y cynllun ddylid cael eu cyfri yn rhifyddol tuag at ddarpariaeth y cynllun, yn gyson â dyraniadau eraill. A oes Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i wneud i'r safleoedd hyn?

**Categori B- Polisi 49 - Hyfywedd Tai Fforddiadwy**

Mae anghysondebau rhwng yr asesiad hyfywedd lefel uchel a phenodol i'r safle sydd angen eu hegluro:

- Nid yw'r Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy wedi cynnwys effaith 'systemau chwistrellu' am £3,100 fesul annedd. Er bod elfen o 'darged ychwanegol wrth gefn' uwchben y meincnod gwerthoedd tir; nid yw'n eglur a yw hyn yn ddigonol ar gyfer cost y systemau chwistrellu. Mae hefyd yn aneglur a yw gwaith penodol ar y safle wedi'i gynnwys yn y costau hyn.
- Ar gyfer y safleoedd hynny ble y mae elfen 'anarferol' wedi'u nodi ac nad ydynt wedi'u profi gan Astudiaeth Gweithredu Tir Arcadis yn canolbwyntio ar ddull mwy manwl, mae angen eglurder i sicrhau bod modd darparu lefel yr hyfywedd sydd wedi'i bennu yn y polisi.

**Categori C - Darparu a Gweithredu'r Safle**

Dylid cynnwys gofynion y seilwaith, costau cysylltiedig, yn ogystal ag amserlenni ar gyfer cyflawni o'r Astudiaeth Gweithredu Tir a'r Papur Cefndir Tai o fewn y cynllun, neu'r atodiad, i helpu i weithredu'r broses o fonitro'r cynllun.

**Categori C - [redacted]**

Dim ond 205 uned (18% o gyfanswm y ddarpariaeth dai) yr amcangyfrifir fydd yn Ninbych-y-pysgod, drwy ymrwymiadau a darpariaeth ar hap yn unig. Dylai'r Awdurdod egluro pam nad yw'r safleoedd posibl a nodwyd yn Ninbych-y-pysgod drwy'r Astudiaeth Capasiti Setliad heb eu datblygu fel dyraniadau; o ystyried ei fod y setliad mwyaf cynaliadwy.

**Categori C - Polisi 49: Egluro y Targed ar gyfer Tai Fforddiadwy**

Mae angen nodi y targed tai fforddiadwy (250 - Polisi 49 - neu 273 - Tabl 6?) gyda targedau penodol ar gyfer pob is-ardal. Hefyd, er mwyn cyd-fynd â chyfraith achosion a Pholisi Cynllunio Cymru (paragraff 9.2.19) mae'n rhaid i'r polisi gynnwys elfen o hyblygrwydd /hyfywedd a chynnwys cyfeiriad at drafod fesul safle.

**Categori C- Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)/ Polisi 51 Sipsiwn a Theithwyr**

Mae'r GTAA yn datgan bod angen i 101 o leiniau ar draws Sir Benfro (2031) gydag angen ar unwaith (erbyn 2020) am 32 o leiniau preswyl a 2 o fuarthau Sioeau Teithiol. Mae'r Cynllun Adneuo yn datgan "nad oes angen wedi'i nodi yn yr APCAP" (paragraff 4.301).

Dylai'r datganiad hwn gael ei gefnogi gan Ddatganiad o Dir Cyffredin gydag Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant Cyngor Sir Penfro a Llywodraeth Cymru cyn archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r Maen Prawf yn a) gwrth-ddweud y polisi cenedlaethol. Mae'n awgrymu bod rhyddid Sipsiwn a Theithwyr i symud i ddatblygu safleoedd mewn awdurdodau lleol eraill wedi'i gyfyngu. Gellid ystyried bod hyn yn wahaniaethu anuniongyrchol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan bod Sipsiwn a Theithwyr yn nomadaidd o ran natur ac yn llai tebygol o fod â chysylltiad lleol ag unrhyw awdurdod lleol penodol.

**Categori C - Polisi 34: Ynni Adnewyddadwy**

Dylid diwygio Polisi 34 i gyfeirio at y graddfeydd gwahanol o ddatblygu ynni adnewyddadwy (Polisi Cynllunio Cymru, Ffigur 12.2) a'i wneud yn glir sut y dylai pob Awdurdod benderfynu ar geisiadau ar gyfer pob graddfa, yn unol âr' polisi cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 12.8.14) ac Asesiad Ynni Adnewyddadwy yr Awdurdod. Dylid cynnwys y cyfraniad targed o 49GWh yn y cyfiawnhad rhesymedig a'i adlewyrchu yn y fframwaith monitro.

**Categori C - Polisi 14: Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg**

Mae Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg mewn Cynghorau Cymuned a Thref gyda 19.2% neu fwy o boblogaeth Cymraeg eu hiaith (paragraff 4.80, Cynllun Datblygu Lleol) wedi'u dangos ar y Map Cynigion; fodd bynnag, dylid eu rhestru ym Mholisi 14. Nid yw'n glir ar hyn o bryd pa setliadau fyddai'r polisi yn berthnasol iddynt.

**Categori C - Polisi 44 & 45: Diogelu ac Ailddefnyddio Safleoedd Cyflogaeth**

Mae maen/meini prawf Polisi 44 a 45 yn cyfuno y mater o ddiogelu tir/eiddo cyflogaeth. Dylai fod yn glir pa leoliadau gofodol y mae'r cynllun yn ceisio cadw defnydd ar gyfer cyflogaeth a ble, mewn amgylchiadau amhriodol, y byddai defnyddiau eraill yn dderbyniol.

**Categori C- Mwynau**

Bydd angen i'r Awdurdod ddangos sut fydd diffyg o 3.25mt o dywod a cherrig mân yn cael ei ddarparu ar draws y rhanbarth. Dylid creu 'Datganiad Tir Cyffredin' a'i lofnodi gan bob awdurdod sy'n cymryd rhan i sicrhau bod y diffyg wedi'i ddatrys.

**Categori C - Polisi 17: Lletemau glas**

Mae nifer a graddfa y lletemau glas (cyfanswm o 41) yn ormodol, yn enwedig yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol. Nid yw'r sylfaen dystiolaeth yn egluro nac yn cyfiawnhau'n ddigonol mewn nifer o achosion sut y mae lletemau glas wedi'u dynodi yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (para 4.8.3.4.8.11).

***********